Datganiad i'r wasg

9 Mehefin 2009

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mae angen defnyddio systemau gwybodaeth reoli yn well mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol

Heddiw, mae Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn cyhoeddi ei hadroddiad *'Gwybodaeth reoli mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol'.*

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn amlygu'r angen i ddefnyddio systemau gwybodaeth reoli yn well ar bob lefel.

Mae tystiolaeth yn dangos diffyg arfer gyffredin wrth ddefnyddio systemau gwybodaeth reoli mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol ledled Cymru. Gan nad yw gwybodaeth reoli gadarn yn cael ei defnyddio, caiff cynllunio ar bob lefel ei rwystro.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, *'Mae'n amlwg bod rhai meysydd pwysig iawn y mae angen i wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol eu gwella os ydynt am fodloni amcanion polisi blaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ymestyn Hawliau.'*

'Defnyddio systemau gwybodaeth reoli effeithiol yn well, gwella'r modd y caiff data perthnasol ei gasglu a'i ddadansoddi ac arfarnu mwy gwybodus yw rhai o'r camau yn unig y dylai pob awdurdod lleol eu cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu rôl o wella mynediad i bobl ifanc at gymorth, gwasanaethau a chyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.'

Yn ogystal â'r canfyddiadau, mae adroddiad Estyn yn darparu chwe astudiaeth achos ar wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol ac yn dod i ben gyda chyfres o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a phartneriaethau lleol.

Cynhaliwyd yr ymchwil gan arolygwyr Estyn a fu'n cyfarfod â nifer o brif swyddogion ieuenctid, yn ogystal â swyddogion awdurdodau lleol a gweithwyr ieuenctid. Hefyd, dadansoddwyd canlyniadau o adroddiadau arolygu gwasanaethau cymorth ieuenctid ac adroddiadau perfformiad blynyddol ar wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol fel rhan o'r ymchwil.

- DIWEDD-

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464

Nodiadau i Olygyddion:

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Arfer orau mewn mathemateg ar gyfer disgyblion 3 i 7 oed' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn www.estyn.gov.uk

- Ym mis Medi 2001, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Y Wlad sy'n Dysgu' fel rhaglen strategol ar gyfer addysg yng Nghymru hyd 2010. Dilynodd 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' chwe blynedd yn ddiweddarach. Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau hyn yn nodi'r modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu sicrhau bod plant a phobl ifanc yn llwyddo mewn addysg yng Nghymru, gan leihau nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd heb ddealltwriaeth dda o fathemateg.

- Estyn yw'r arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, arolygwyr tîm ac arolygwyr lleyg) ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant i gynnal archwiliadau ar draws yr ystod lawn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion meithrin a lleoliadau a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau) neu a ariennir ganddynt, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant i athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfaoedd, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.